# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 1 Hydref 2018

Amser: 14.30 - 14.41

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5016

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AC (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AC<br>Mandy Jones AC<br>Dai Lloyd AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Dawn Bowden AC.

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau newydd a benodwyd i'r Pwyllgor, sef Dawn Bowden AC, Lee Waters AC a Suzy Davies AC.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7

### 2.1 SL(5)256 - Cod Trefniadaeth Ysgolion

Trafododd y Pwyllgor y Cod ac roedd yn fodlon arno. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i ofyn am wybodaeth ynghylch sut yr oedd Gweinidogion Cymru wedi ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (yn unol ag adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011).

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Diweddariad ar newidiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud ag Offerynnau Statudol Brexit

Trafododd y Pwyllgor bapur diweddaru ar y newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog sy'n ymwneud ag Offerynnau Statudol Brexit.

## 5 Craffu ar Reoliadau a wnaed o dan y Bil Masnach: Adroddiad Drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft, a chytunodd arno yn amodol ar fân newidiadau.